



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal – trosglwyddo i fodel nid-er-elw

Adroddiad 3 – Gorffennaf 2026

Cynnwys

	Tudalen
Cyflwyniad, strwythur yr adroddiad a'r camau nesaf	3
Crynodeb o'r adroddiad	6
Adran 1 – Nifer y gwasanaethau, lleoedd ac aelwydydd cofrestredig i blant ar gyfer cartrefi plant, maethu a llety diogel	9
Adran 2 – Ymunwyr â'r farchnad ac ymadawyr â'r farchnad – Cartrefi plant	17
Adran 3 – Ymunwyr â'r farchnad ac ymadawyr â'r farchnad – Maethu	21
Adran 4 – Sefydlogrwydd Lleoedd	27
Adran 5 – Cynigion Eiriolaeth	29

Cyflwyniad

- i. Cyhoeddodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol blaenorol ei adroddiad Cyfnod 1 ar y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) ar y pryd ar 11 Hydref 2024. Nododd Argymhelliad 9 o'r adroddiad hwnnw:

Dylai'r Gweinidog baratoi a chyhoeddi adroddiad ar y cynnydd o ran trosglwyddo i'r model nid-er-elw. Dylai hyn gynnwys diweddariad, yn ôl awdurdod lleol, ar nifer y lleoedd sy'n ymadael â'r farchnad a nifer y lleoedd newydd a grëwyd, a dylai fyfyrio ar sefydlogrwydd y lleoedd presennol. Dylai hefyd gynnwys manylion yr ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc y mae'r Bil yn effeithio'n uniongyrchol arnynt a'r niferoedd sy'n manteisio ar y cynnig gweithredol o eiriolaeth. Dylid gwneud hyn bob chwe mis, gan ddechrau o ddyddiad dadl Cyfnod 1.

- ii. Derbyniodd y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ar y pryd yr argymhelliad hwn ac ymrwymodd i gyhoeddi adroddiad ar gynnydd bob chwe mis. Cafodd adroddiad y chwe mis cyntaf [ei gyhoeddi ym mis Mai 2025](#) a nodi'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2025 lle mae ar gael. Cyhoeddwyd ail adroddiad wedyn ym mis [Tachwedd 2025](#), yn nodi'r sefyllfa ar 30 Medi 2025, lle'r roedd data wedi'i ddiweddarau ar gael.

- iii. Er bod yr adroddiadau hyn wedi'u cyhoeddi i ddechrau mewn ymateb i argymhelliad y Pwyllgor blaenorol, mae'r wybodaeth a gynhwysir ynddynt wedi bod yn werthfawr hefyd wrth gefnogi ymwybyddiaeth ehangach o'r sector a chraffu. Yn benodol, mae'r adroddiadau wedi ein galluogi i nodi patrymau a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg yn y farchnad wrth i'r trawsnewidiad fynd rhagddo. Yn unol â hynny, bu cefnogaeth eang o blaid parhau â'r cyhoeddiadau hyn, sydd wedi llywio'r penderfyniad i fwrw ymlaen â chynhyrchu'r trydydd adroddiad hwn.

Strwythur yr adroddiad

- iv. Yn gyson â strwythur y ddau adroddiad cyntaf, mae'r adroddiad hwn wedi'i rannu yn yr un adrannau, gan ddechrau gyda chrynodeb o ganfyddiadau'r adroddiad a chan nodi'r camau nesaf. Lle bo modd, mae data am gartrefi plant a data maethu wedi'i rannu'n batrymau lleol a daearyddol ar draws y mathau canlynol o ddarpariaeth:

Darpariaeth nid-er-elw	Darpariaeth er-elw
Awdurdod Lleol (yn cael ei rhedeg gan awdurdod lleol)	(nid yw'r data hwn wedi'i ddadansoddi yn ôl math penodol o ddarpariaeth er-elw)
Sefydliadau nid-er-elw eraill (nad ydynt yn cael eu rhedeg gan awdurdod lleol)	

- v. O ran 'nid-er-elw arall' rydym wedi penderfynu mai darpariaeth sy'n gweithredu o dan un o'r pedwar model gweithredu cydnabyddedig a nodir o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 ("Deddf 2025"), yn benodol y rhai sydd naill ai:
- yn gwmni elusennol cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau,
 - yn sefydliad elusennol corfforedig,
 - yn gymdeithas budd cymunedol elusennol, neu
 - cwmni buddiant cymunedol cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau
- vi. Mae'r ddarpariaeth yn cael ei mesur o ran nifer y gwasanaethau a'r lleoedd (uchafswm capasiti pob gwasanaeth) sydd wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Cyflwynir data maethu hefyd o ran nifer yr aelwydydd, lle mae ar gael.
- vii. Mae Adran 1 yn rhoi trosolwg o'r sector yng Nghymru ar 31 Mawrth 2026 gan gynnwys nifer y gwasanaethau cartrefi plant, gwasanaethau maethu a gwasanaethau llety diogel, wedi'u dadansoddi yn ôl math o ddarparwr (awdurdod lleol nid-er-elw, darparwyr nid-er-elw eraill neu er-elw) yn ôl bwrdd partneriaeth rhanbarthol ac ardal awdurdod lleol. Dyma'r tri math o wasanaeth y bydd angen iddynt gael eu darparu gan awdurdodau lleol neu ddarparwyr nid-er-elw eraill pan fydd gweithredu Deddf 2025 wedi'i gwblhau.
- viii. Mae adran 2 yn ymdrin ag ymunwyr â'r farchnad ac ymadawyr â'r farchnad ar gyfer gwasanaethau cartrefi plant ac mae adran 3 yn ymdrin â'r un data ar gyfer gwasanaethau maethu. Mae'r adroddiad wedyn yn myfyrio ar sefydlogrwydd lleoliadau plant sy'n derbyn gofal yn adran 4 gan gloi gyda data ar y defnydd o'r cynnig o eiriolaeth statudol yn adran 5.

Cyflwyno data- datblygiadau ers Adroddiad 2

- ix. Fel gyda'r ddau adroddiad cyntaf, mae'r adroddiad hwn yn cynnwys data gan AGC, Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant, Maethu Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae pwynt adrodd cyffredin dyddiedig 31 Mawrth 2026 wedi'i sefydlu ar gyfer data a ddarperir gan AGC, Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant a Maethu Cymru. Cyflwynir data Llywodraeth Cymru, sydd wedi'i gynnwys yn adran 4, ar 31 Mawrth 2025; ac mae'r data sy'n ymwneud ag adran 5 yn adlewyrchu'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025.
- x. Yn unol â'r ail adroddiad, mae data maethu ar lefel awdurdod lleol yn cynnwys aelwydydd a lleoedd gofal maeth cymeradwy. Mae hyn wedi'i nodi yn Nhabl 1b. Mae dadansoddiad pellach o aelwydydd a lleoedd maethu awdurdodau lleol yn ôl darpariaeth brif ffrwd a darpariaeth gan bersonau cysylltiedig (perthnasoedd) hefyd wedi'i gynnwys yn Nhabl 1c. Mae tablau 3a i 3b yn dangos maethu marchnad yn mynd i fyny ac allanfa (yn ôl aelwydydd a lleoedd prif ffrwd a phersonau cysylltiedig). Mae data ar gyfer asiantaethau maethu annibynnol

(IFAs) sy'n ymuno â'r farchnad ac yn ymadael â'r farchnad ar gael ar hyn o bryd ar lefel aelwydydd yn unig, nid yn ôl lle gan y byddai hyn yn gofyn am olrhain gwelyau sydd wedi'u hychwanegu, a gwelyau sydd wedi'u dileu i gyfrifo'r sefyllfa net ar lefel awdurdod lleol ac mae angen sicrwydd ansawdd ychwanegol. Darperir data ar lefel aelwydydd yn nhabl 3c.

- xi. Mewn nifer bach o achosion mae data ar gyfer lleoedd cartrefi plant yn cynnwys gwasanaethau sydd ag ysgolion mawr sydd wedi'u cofrestru gan Estyn ar y safle. Nid yw'r lleoliadau hyn ar gael i bob plentyn sy'n derbyn gofal a byddent yn cael eu paru â phroffil penodol o blant. Felly, gall y capasiti cofrestredig a ddangosir gan yr awdurdod lleol lletyol ymddangos ychydig yn uwch na'r argaeledd gwirioneddol at ddibenion comisiynu.
- xii. Er bod ffocws yr adroddiad hwn yn mesur symudiad yn y farchnad do fewn wy ddata meintiol, mae'n bwysig nodi bod cyd-destun ansoddol ehangach y cartrefi cywir, sydd ar gael ar yr adeg iawn, i ddiwallu anghenion plant, yn awr ac yn y dyfodol, yn hanfodol i gyflawni nid yn unig niferoedd digonol ond hefyd darpariaeth ddigonol sy'n canolbwyntio ar blant a chanlyniadau.
- xiii. Yn unol â'r adroddiad blaenorol mae anghysondeb o hyd o ran darpariaeth gofrestredig ar draws pob math o leoliad i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc. Mae arolygiadau graddedig AGC yn dangos ar y cyfan fod ansawdd y ddarpariaeth gofrestredig, yn ôl pob math o ddarparwyr, yn dda, ond mae gormod o ddarpariaeth nad yw'n cael ei thargedu'n gywir at ddiwallu anghenion presennol plant sy'n derbyn gofal. Mae'r awdurdodau lleol yn parhau i weithio gyda'r holl ddarparwyr i leihau'r bwlch hwn a gwella digonolrwydd, gan gynnwys ymgysylltu â darparwyr ar y proffil anghenion yng Nghymru. Gellir dod o hyd i'r dadansoddiad diweddaraf o hyn gan Gonsortium Comisiynu Cymru ar gyfer Plant ym mis Medi 2025 [yma](#). Mae hyn yn cynnwys ystod o astudiaethau achos sy'n dangos yr effaith uniongyrchol ar brofiadau gofal plant.

Y Camau Nesaf

- xiv. Bwriedir cwblhau'r adroddiad nesaf yn nes ymlaen eleni ac fe fydd yn cynnwys data hyd at 30 Medi 2026 lle bo ar gael.

Crynodeb o'r adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth fanwl am nifer y gwasanaethau, lleoedd ac aelwydydd cofrestredig ar gyfer cartrefi gofal plant, gwasanaethau maethu a gwasanaethau llety diogel yng Nghymru. Mae'n cynnwys hefyd adrannau ar sefydlogrwydd lleoedd a'r nifer sy'n manteisio ar wasanaethau eiriolaeth. Mae pwyntiau allweddol o'r data wedi'u nodi isod (drwy gydol yr adroddiad mae canrannau yn cael eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf).

1. Ar 31 Mawrth 2026, mae 397 o wasanaethau cartrefi plant wedi'u cofrestru yng Nghymru sy'n cynnig uchafswm o 1,349 o leoedd. Mae'r ddau yn dangos cynnydd ar y ffigurau yn yr adroddiad blaenorol ar 30 Medi 2025. Mae ddarpariaeth er-elw yn dal i gyfrif am dros dri chwarter o holl wasanaethau a lleoedd cartrefi plant.

- Yn ôl rhanbarth, mae'r nifer mwyaf o wasanaethau cartrefi plant yng Ngogledd Cymru a Gwent (89 neu 22% o'r ffigur cenedlaethol ym mhob un) a Gogledd Cymru sydd â'r nifer mwyaf o leoedd cofrestredig (317 neu 23% o'r ffigur cenedlaethol). Mae'r gyfran ranbarthol fwyaf o ddarpariaeth cartrefi plant er-elw i'w chael yng Ngorllewin Morgannwg (48 o 50 o wasanaethau neu 96% a 181 o 185 o leoedd, neu 98%).
- O fewn ardaloedd yr awdurdodau lleol, cofnodwyd y gyfran fwyaf o wasanaethau a lleoedd cartrefi plant er-elw yng Nghastell-nedd Port Talbot, Torfaen a Sir Ddinbych. Ar 31 Mawrth 2026, mae'r holl ddarpariaeth breswyl yn yr ardaloedd hyn yn cael ei gweithredu gan ddarparwyr er-elw.
- I'r gwrthwyneb, nid oedd gan Geredigion unrhyw wasanaethau cartrefi plant er-elw wedi'u cofrestru, er ei bod hefyd yn cynnwys y nifer cyffredinol isaf o wasanaethau (2) a lleoedd (9) yng Nghymru.

2. Mae cyfran sylweddol o'r ymunwyr â'r farchnad cartrefi plant yn parhau i fod yn rhai 'er-elw'.

- Mae data rhwng 30 Medi 2025 a 31 Mawrth 2026 yn dangos bod 15 o'r 23 o wasanaethau cartref plant (65%) a 36 o'r 55 o leoedd (65%) a gofrestrwyd gan AGC yn rhai er-elw. Roedd yr 8 gwasanaeth arall (a 19 lle) wedi'u cofrestru naill ai i awdurdod lleol neu ddarparwyr nid-er-elw eraill.
- Yn gyffredinol, cofrestrwyd llai o wasanaethau a lleoedd yn ystod y cyfnod adrodd hwn o'i gymharu â'r cyfnod blaenorol. Dangosodd data rhwng 1 Ebrill 2025 a 30 Medi 2025 gynnydd o 32 o wasanaethau (21 yn rhai er-elw ac 11 yn rhai awdurdod lleol neu ddarparwyr nid-er-elw eraill), a 98 o leoedd (61 yn rhai er-elw a 37 o ddarparwyr awdurdodau lleol neu ddarparwyr nid-er-elw eraill).

- Yn ystod y cyfnod adrodd 30 Medi 2025 i 31 Mawrth 2026, ymadawodd 1 gwasanaeth cartref plant er-elw â'r farchnad. Roedd y gwasanaeth hwn wedi'i leoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac fe'i cofrestrwyd i ddarparu hyd at 4 lle. Ni wnaeth y gwasanaeth hwn ddatgofrestru ond trosglwyddodd o ddarparu gwasanaethau i blant i wasanaethau i oedolion. Mae hyn yn cymharu â'r cyfnod adrodd 6 mis blaenorol a welodd 7 gwasanaeth cartref plant er-elw yn ymadael â'r farchnad.
- Gwent a Chwm Taf Morgannwg gofnododd y twf rhanbarthol uchaf yn nifer y gwasanaethau a lleoedd mewn cartrefi plant cofrestredig, gyda 5 gwasanaeth newydd wedi'u cofrestru ym mhob un, gan ddarparu uchafswm o 12 lle yng Ngwent a Chwm Taf Morgannwg. Yng Ngwent, roedd 1 gwasanaeth yn wasanaeth awdurdod lleol, ac roedd y 4 gwasanaeth newydd sy'n weddill yn wasanaethau er-elw. Yng Nghwm Taf Morgannwg, roedd 2 o'r 5 gwasanaeth newydd yn cael eu rhedeg gan yr awdurdodau lleol ac roedd y 3 arall yn rhai er-elw.
- Gyda dim ond 1 gwasanaeth yn ymadael â'r farchnad, cofnodwyd cynnydd net cyffredinol mewn gwasanaethau (22), a'r uchafswm lleoedd sydd ar gael (51) ledled Cymru.

3. Ar 31 Mawrth 2026, mae 43 o wasanaethau maethu wedi'u cofrestru yng Nghymru sy'n cynnig 3,480 o aelwydydd maethu a 6,138 o leoedd maethu. Mae'r mwyafrif o aelwydydd a lleoedd maethu yng Nghymru yn cael eu gweithredu gan sefydliadau nid-er-elw, gan gynnwys awdurdodau lleol.

- O'r 43 o wasanaethau maethu yng Nghymru, mae 22 yn cael eu gweithredu gan yr awdurdodau lleol. Darperir y gweddill gan Asiantaethau Maethu Annibynnol (IFAs). O'r rheini, mae 5 yn sefydliadau nid-er-elw ac mae 16 yn sefydliadau er-elw.
- O'r 3,480 o aelwydydd maethu, mae 2,507 (neu 72%) yn cael eu darparu gan yr awdurdodau lleol. O'r 6,138 o leoedd maethu, mae 4,085 (neu 67%) yn cael eu darparu gan awdurdodau lleol.
- Mae cyfran sylweddol o'r aelwydydd (1,058 neu 42%) a'r lleoedd (1,493 neu 37%) a ddarperir gan yr awdurdodau lleol o fewn gofal maeth gan berthynas neu 'bersonau cysylltiedig'. Mae'r 1,449 o aelwydydd a'r 2,592 o leoedd sy'n weddill yn darparu gofal maeth prif ffrwd.
- O ran aelwydydd a lleoedd IFA, darperir 811 o aelwydydd (23% o'r holl aelwydydd) a 1,717 o leoedd (28% o'r holl leoedd) gan sefydliadau er-elw a darperir 162 (5%) o leoedd a 336 (5%) o leoedd gan sefydliadau nid-er-elw eraill.

- Yn ôl rhanbarth, Gogledd Cymru sydd â'r nifer mwyaf o aelwydydd maethu 736 (21%) yng Nghymru. Mae'r nifer mwyaf o leoedd i'w cael yng Ngogledd Cymru hefyd, gyda 1,303 o leoedd (neu 21% o'r holl ddarpariaeth), ond mae Gwent yn dilyn hyn yn agos, gyda 1,188 o leoedd (neu 19% o'r holl ddarpariaeth).
- O fewn ôl troed awdurdod lleol, mae'r crynodiad mwyaf o ddarpariaeth faethu yng Nghaerdydd. Mae gan yr ardal 338 o aelwydydd (10% o'r ffigur cenedlaethol) a 647 o leoedd (11% o'r ffigur cenedlaethol). Caerdydd hefyd sydd â'r nifer uchaf o aelwydydd er-elw (96, neu 12% o'r holl aelwydydd er-elw) a lleoedd (224, neu 13% o'r holl leoedd er-elw). Cofnododd Rhondda Cynon Taf 337 o aelwydydd (10% o'r ffigur cenedlaethol) a 621 o leoedd (10% o'r ffigur cenedlaethol).
- Mae gan Sir Gaerfyrddin hefyd lawer o ddarpariaeth faethu er elw, gyda 76, neu 9% o'r holl aelwydydd er-elw, a 165, neu 10% o'r holl leoedd er-elw.
- Nid oes gan 3 awdurdod lleol (Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam) unrhyw ddarpariaeth IFA nid-er-elw yn eu hardaloedd.
- Bu gostyngiad net mewn aelwydydd maethu er-elw (4), ac aelwydydd maethu IFA nid-er-elw (16). I'r gwrthwyneb bu cynnydd net (o 25) mewn aelwydydd maethu awdurdodau lleol dros y cyfnod adrodd hwn. Mae hyn yn cynnwys cynnydd net o 29 o aelwydydd personau cysylltiedig a gostyngiad net o 4 aelwyd brif ffrwd.

Adran 1 - Nifer y gwasanaethau, lleoedd ac aelwydydd cofrestredig i blant ar gyfer cartrefi plant, maethu a llety diogel

Tabl 1a: Nifer y gwasanaethau cartrefi plant cofrestredig ac uchafswm y lleoedd cofrestredig (ar 31 Mawrth 2026)

Ffynhonnell: AGC

Rhanbarthol ac Awdurdod Lleol	Nifer y gwasanaethau cartrefi plant cofrestredig				Nifer yr uchafswm lleoedd cofrestredig yng nghartrefi plant			
	Nid-er-elw (Awdurdod Lleol)	Nid-er-elw (Arall)	Er-elw	Cyfanswm	Nid-er-elw (Awdurdod Lleol)	Nid-er-elw (Arall)	Er-elw	Cyfanswm
Caerdydd a'r Fro	10	2	29	41	27	4	118	149
Caerdydd	10	0	16	26	27	0	70	97
Bro Morgannwg	0	2	13	15	0	4	48	52
Cwm Taf Morgannwg	18	2	48	68	57	2	148	207
Pen-y-bont ar Ogwr	5	2	15	22	19	2	43	64
Merthyr Tudful	4	0	10	14	8	0	29	37
Rhondda Cynon Taf	9	0	23	32	30	0	76	106
Gwent	20	0	69	89	73	0	194	267
Blaenau Gwent	2	0	18	20	6	0	47	53
Caerffili	7	0	9	16	21	0	30	51
Sir Fynwy	2	0	13	15	9	0	42	51
Casnewydd	9	0	13	22	37	0	40	77
Torfaen	0	0	16	16	0	0	35	35
Gorllewin Cymru	6	1	29	36	23	6	102	131
Sir Gaerfyrddin	3	0	19	22	13	0	63	76
Ceredigion	1	1	0	2	3	6	0	9
Sir Benfro	2	0	10	12	7	0	39	46
Gogledd Cymru	20	0	69	89	61	0	256	317
Conwy	4	0	8	12	19	0	27	46
Sir Ddinbych	0	0	10	10	0	0	47	47
Sir y Fflint	5	0	21	26	12	0	68	80
Gwynedd	2	0	6	8	8	0	39	47
Ynys Môn	4	0	2	6	7	0	7	14
Wrecsam	5	0	22	27	15	0	68	83
Gorllewin Morgannwg	2	0	48	50	4	0	181	185
Castell-nedd Port Talbot	0	0	23	23	0	0	89	89
Abertawe	2	0	25	27	4	0	92	96
Powys	5	3	16	24	13	10	70	93
CYFANSWM	81	8	308	397	258	22	1,069	1,349

Tabl 1a - Esboniad data

- 1.1. Mae Tabl 1a yn dangos cyfanswm o 397 o wasanaethau cartrefi plant cofrestredig yng Nghymru ar 31 Mawrth 2026. Gyda'i gilydd mae'r rhain yn darparu hyd at 1,349 o leoedd cofrestredig. Darperir y rhan fwyaf o'r gwasanaethau (308 neu 78% o'r holl wasanaethau cartrefi plant) a lleoedd (1,069 neu 79% o'r holl leoedd cartref plant) gan ddarparwyr er-elw.

Tabl 1b: Nifer y gwasanaethau maethu, aelwydydd gofal maeth a lleoedd (ar 31 Mawrth 2026)

Ffynonellau:

1 Gwasanaethau Cofrestredig – AGC

2 Aelwydydd a lleoedd Awdurdodau Lleol – Maethu Cymru

3 Aelwydydd a lleoedd nad ydynt wedi'u cofrestru gydag awdurdodau lleol - Consortïwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant

Rhanbarth ac ardal awdurdod lleol	Nifer y gwasanaethau gofal maeth			Nifer yr aelwydydd gofal maeth			Uchafswm nifer y lleoedd gofal maeth		
	Nid-er-elw (Awdurdod Lleol)	Nid-er-elw (Arall)	Er-elw	Nid-er-elw - (Awdurdod Lleol)	Nid-er-elw (Arall)	Er-elw	Nid-er-elw (Awdurdod Lleol)	Nid-er-elw- (Arall)	Er-elw
Caerdydd a'r Fro	2	2	4	350	39	135	517	86	314
Caerdydd	1	2	4	214	28	96	362	61	224
Bro Morgannwg	1	0	0	136	11	39	155	25	90
Cwm Taf Morgannwg	3	0	1	408	40	135	711	86	283
Pen-y-bont ar Ogwr	1	0	0	127	7	58	211	14	127
Merthyr Tudful	1	0	0	40	1	13	78	4	25
Rhondda Cynon Taf	1	0	1	241	32	64	422	68	131
Gwent	5	1	1	539	45	109	873	86	229
Blaenau Gwent	1	0	0	80	6	7	121	8	14
Caerffili	1	1	0	127	13	36	221	23	80
Sir Fynwy	1	0	0	57	4	18	91	10	40
Casnewydd	1	0	1	144	17	33	245	35	65
Torfaen	1	0	0	131	5	15	195	10	30
Gorllewin Cymru	3	0	2	271	15	129	422	35	270
Sir Gaerfyrddin	1	0	2	115	5	76	162	10	165
Ceredigion	1	0	0	50	7	19	74	18	38
Sir Benfro	1	0	0	106	3	34	186	7	67
Gogledd Cymru	6	1	5	497	7	232	801	14	488
Conwy	1	1	2	87	3	57	133	6	125
Sir Ddinbych	1	0	0	56	0	52	75	0	115
Sir y Fflint	1	0	1	79	0	58	141	0	120
Gwynedd	1	0	0	118	2	9	191	3	17
Ynys Môn	1	0	0	69	2	22	121	5	47
Wrecsam	1	0	2	88	0	34	140	0	64
Gorllewin Morgannwg	2	0	0	353	15	57	609	27	104
Castell-nedd Port Talbot	1	0	0	137	10	30	233	18	55
Abertawe	1	0	0	216	5	27	376	9	49
Powys	1	0	0	89	1	14	152	2	29
Y tu allan i Gymru	0	1	3	0	0	0	0	0	0
CYFANSWM	22	5	16	2,507	162	811	4,085	336	1,717

Tabl 1b - Esboniad data

Nodiadau ar gasglu data

Data a ddarperir gan AGC

- 1.2. Mae AGC yn cofrestru IFAs (y gellir eu darparu gan sefydliadau er-elw neu sefydliadau nid-er-elw) yng Nghymru ond nid gwasanaethau maethu a ddarperir gan yr awdurdodau lleol. Mae tri darparwr maethu er-elw, ac un darparwr maethu nid-er-elw, sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru ond sy'n darparu gwasanaethau yng Nghymru ac sydd, felly, wedi'u cofrestru yng Nghymru.

Data a ddarperir gan Gonsortïwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant

- 1.3. I gael ei ddata, gofynnodd Consortïwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant i bob Asiantaeth Faethu Annibynnol (IFAs) ar system yr Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant (CCSR) ddarparu gwybodaeth am nifer yr aelwydydd maethu cofrestredig ac uchafswm nifer y lleoedd. Darparodd 18 o'r 21 IFA cofrestredig ddata. Ers yr adroddiad diwethaf mae 1 darparwr maeth wedi'i ddatgofrestru. Mae data yn dangos nifer yr aelwydydd sy'n maethu yn ôl ardal yr awdurdod lleol y maent yn byw ynddi. Nid oedd data ar gael ar gyfer y 3 IFA sy'n weddill gan nad ydynt wedi'u cofrestru ar y system CCSR.

Data a ddarperir gan Maethu Cymru

- 1.4 Mae'r ffigurau a ddarperir yn ffigurau ar gyfer yr holl ofalwyr maeth a lleoedd cymeradwy'r awdurdod lleol, h.y. cyfanswm y gofalwyr maeth prif ffrwd cymeradwy a phersonau cysylltiedig (perthnasoedd) cymeradwy.¹ Mae'r ffigurau ar gael ar sail awdurdod lleol.
- 1.5 Archwilir dadansoddiad llawn o aelwydydd a data lleoliadau Maethu Cymru yn llawnach o dan dabl 1c ac adran 3.

Nifer y gwasanaethau gofal maeth

- 1.6 Er bod gan bob awdurdod lleol ei wasanaeth maethu ei hun, mae pob un ohonynt yn gweithio gyda'i gilydd o fewn rhwydwaith cenedlaethol Maethu Cymru. Mae 43 o ddarparwyr gofal maeth ledled Cymru. O'r rhain, bydd nifer gwasanaethau maethu'r awdurdodau lleol bob amser yn aros yn uchafswm o 22, yn unol â'r nifer o awdurdodau lleol.

¹ Mae personau cysylltiedig sy'n ofalwyr maeth yn cael eu cyfarwyddo gan y llys fel rheol ac yn darparu lleoedd ar gyfer plant penodol, fel arfer yn rhan o deulu / rhwydwaith y plentyn, ac nid ydynt ar gael at ddefnydd cyffredinol.

- 1.7 Ar 31 Mawrth 2026, roedd 5 IFA nid-er-elw (neu 12% o gyfanswm nifer y gwasanaethau) a 16 o IFAs er-elw (neu 37% o gyfanswm nifer y gwasanaethau). Yn yr adroddiad blaenorol roedd 5 IFA nid-er-elw ac 17 o wasanaethau er-elw ar 31 Mawrth 2025 wedi'u cofnodi. Roedd 1 IFA er-elw wedi datgofrestru yn ystod y cyfnod adrodd hwn.
- 1.8 Yn ôl rhanbarth, Gogledd Cymru sydd â'r nifer uchaf o wasanaethau maethu er-elw, sef 5 neu 31% o'r holl wasanaethau, ar draws Conwy, Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Ddinbych. Roedd 4 gwasanaeth maethu er-elw (25% o'r holl wasanaethau) wedi'u lleoli yn ardal awdurdod lleol Caerdydd. Nid yr awdurdod lleol lle mae IFA wedi'i gofrestru yw'r lleoliad lle mae gofalfwyr maeth yn byw o reidrwydd.

Aelwydydd gofal maeth ac uchafswm nifer y lleoedd gofal maeth

- 1.9 Mae 3,480 o aelwydydd maethu a 6,138 o leoedd yng Nghymru. Mae'r awdurdodau lleol yn cynnwys 2,507 (72%) o'r aelwydydd hynny, a 4,085 (67%) o leoedd. O'r 973 o aelwydydd IFA sy'n weddill, roedd 811 (23% o gyfanswm yr aelwydydd) yn aelwydydd cofrestredig er-elw ac roedd 162 (5% o gyfanswm yr aelwydydd) yn aelwydydd nid-er-elw eraill. Yn yr un modd, o'r 2,053 o leoedd IFA sy'n weddill, roedd 1,717 (neu 28% o gyfanswm y lleoedd) yn rhai er-elw a'r 336 arall (neu 5% o gyfanswm y lleoedd) yn rhai nid-er-elw.
- 1.10 Ar ddiwedd mis Mawrth 2026, roedd gofalfwyr maeth awdurdodau lleol yn darparu lleoliadau i 4,085 o blant mewn 2,507 o aelwydydd.
- 1.11 Mae'r data'n dangos gostyngiad mewn aelwydydd IFA nid-er-elw (16 neu 9% o'r ffigur blaenorol). Mae darpariaeth IFA er-elw wedi gostwng hefyd (4 neu lai nag 1% o'r ffigur blaenorol). I'r gwrthwyneb, mae nifer yr awdurdodau lleol sy'n aelwydydd maethu wedi cynyddu 25.
- 1.12 O ran lleoliadau, nid yw'n bosibl tynnu cymariaethau uniongyrchol rhwng cyfnodau adrodd gan nad yw lleoliadau bob amser yn dilyn yr un patrwm ag aelwydydd. Gall newidiadau mewn statws cymeradwyo (nifer y plant sy'n gallu derbyn gofal gan aelwyd) amrywio am wahanol resymau. Ar y cyfan, er hynny, mae nifer y lleoliadau y cofnodwyd eu bod ar gael ledled Cymru wedi cynyddu o 6,123 ar 1 Medi 2025 i 6,138 ar 31 Mawrth 2026.

Arsylwadau lleol

- 1.13 Yn ôl rhanbarth, Gwent sy'n darparu'r nifer fwyaf o aelwydydd gofal maeth awdurdodau lleol a lleoedd 539 (neu 21% o holl aelwydydd gofal maeth awdurdodau lleol), a 873 (neu 21% o holl leoedd gofal maeth awdurdodau lleol). Fe'i dilynir gan Ogledd Cymru gyda 497 o aelwydydd (neu 20% o gyfanswm nifer

yr aelwydydd cofrestredig awdurdodau lleol) ac 801 (neu 20% o holl leoedd cofrestredig awdurdodau lleol).

- 1.14 O ran ôl troed awdurdodau lleol, mae'r rhan fwyaf o ddarpariaeth gofal maeth yr awdurdodau lleol wedi'i lleoli yn Rhondda Cynon Taf (241 o aelwydydd, 422 o leoedd), Abertawe (216 o aelwydydd, 376 o leoedd) a Chaerdydd (214 o aelwydydd, 362 o leoedd). Roedd yr ardaloedd hyn yn cyfrif am rhwng 9-10% o'r holl aelwydydd a oedd wedi'u cofrestru gydag awdurdodau lleol a rhwng 9-10% o leoedd gofal maeth yr awdurdodau lleol ledled Cymru.
- 1.15 Mae'r gyfran fwyaf o aelwydydd gofal maeth er-elw (232) a lleoedd (488) yn preswyllo ar draws Gogledd Cymru. Gyda'i gilydd, mae'r rhanbarth hwn yn cyfrif am 29% o'r holl aelwydydd er-elw, a 28% o leoedd er-elw gyda chrynodiadau ar draws Conwy gyda 57 o aelwydydd, 125 o leoedd, Sir Ddinbych gyda 52 o aelwydydd, 115 o leoedd a Sir y Fflint gyda 58 o aelwydydd a 120 o leoedd. Mae pob un o'r ardaloedd hynny yn cyfrif am 6-7% o gyfanswm nifer yr aelwydydd er-elw a 7% o leoedd er-elw.
- 1.16 Mae'r gyfran fwyaf o'r ddarpariaeth gofal maeth nad yw'n ddarpariaeth yr awdurdod lleol i'w gweld yn ardal awdurdod lleol Caerdydd. Mae 28 o aelwydydd IFA nid-er-elw (sy'n cynnig uchafswm o 61 o leoedd) wedi'u lleoli yn ardal Caerdydd (o gyfanswm o 162 o aelwydydd a 336 o leoedd). Mae 96 o aelwydydd er-elw (sy'n cynnig uchafswm o 224 o leoedd) hefyd wedi'u lleoli yn ardal awdurdod lleol Caerdydd (o gyfanswm o 811 o aelwydydd neu 1,717 o leoedd).

Gwasanaethau llety diogel

- 1.17 Ar 31 Mawrth 2026 ac yn unol â'r sylwadau yn y ddau adroddiad blaenorol, mae un gwasanaeth llety diogel wedi'i gofrestru yng Nghymru. Mae hwn yn cael ei weithredu gan awdurdod lleol ac mae wedi'i gofrestru ar gyfer uchafswm o 14 o leoedd. Er hynny, mae'r cyfleuster hwn yn gwasanaethu'r ystad ddiogel yng Nghymru a Lloegr ac felly mae'n derbyn atgyfeiriadau a phlant o bob rhan o'r ddwy wlad.

Tabl 1c: Aelwydydd a lleoedd maethu awdurdodau lleol wedi'u rhannu yn ôl darpariaeth brif ffrwd a darpariaeth gan bersonau cysylltiedig (ar 31 Mawrth 2026).

Ffynhonnell: Maethu Cymru

Cyfanswm rhanbarthol ac ardal awdurdod lleol	Aelwydydd maethu			Lleoedd Maethu		
	Maethu Prif Ffrwd	Personau cysylltiedig	Cyfanswm yr Aelwydydd (*gweler tabl 1b)	Maethu Prif Ffrwd	Personau Cysylltiedig	Cyfanswm y Lleoedd (*gweler tabl 1b)
Caerdydd a'r Fro	158	192	350	283	234	517
Caerdydd	109	105	214	216	146	362
Bro Morgannwg	49	87	136	67	88	155
Cwm Taf Morgannwg	207	201	408	401	310	711
Pen-y-bont ar Ogwr	62	65	127	124	87	211
Merthyr Tudful	28	12	40	61	17	78
Rhondda Cynon Taf	117	124	241	216	206	422
Gwent	374	165	539	651	222	873
Blaenau Gwent	51	29	80	80	41	121
Caerffili	80	47	127	160	61	221
Sir Fynwy	43	14	57	75	16	91
Casnewydd	114	30	144	204	41	245
Torfaen	86	45	131	132	63	195
Gorllewin Cymru	155	116	271	254	168	422
Sir Gaerfyrddin	87	28	115	119	43	162
Ceredigion	20	30	50	35	39	74
Sir Benfro	48	58	106	100.	86	186
Gogledd Cymru	284	213	497	492	309	801
Conwy	51	36	87	80	53	133
Sir Ddinbych	37	19	56	46	29	75
Sir y Fflint	54	25	79	103	38	141
Gwynedd	65	53	118	119	72	191
Ynys Môn	40	29	69	83	38	121
Wrecsam	37	51	88	61	79	140
Gorllewin Morgannwg	211	142	353	398	211	609
Castell-nedd Port Talbot	98	39	137	177	56	233
Abertawe	113	103	216	221	155	376
Powys	60	29	89	113	39	152
CYFANSWM	1,449	1,058	2,507	2,592	1,493	4,085

Tabl 1c - Esboniad data

- 1.18 Yn unol â thabl 1b, ar 31 Mawrth 2026, roedd yr awdurdodau lleol yn darparu lleoliadau ar gyfer 4,085 o blant mewn 2,507 o aelwydydd. Mae 1,058 (neu 42%) o'r aelwydydd hynny a 1,493 (neu 37%) o'r lleoedd hynny o fewn gofal maeth 'personau cysylltiedig' tra bo'r holl ddarpariaeth IFA o fewn maethu prif ffrwd.
- 1.19 Mae Maethu Cymru yn adrodd bod nifer y cymeradwyaethau prif ffrwd yn 2025/26 wedi gostwng 4% o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2024/25. Nodwyd hefyd fod lefel y golled net o ofalwyr maeth prif ffrwd wedi arafu yn sylweddol ers i Maethu Cymru gael ei sefydlu; gostyngodd y golled net aelwydydd prif ffrwd o -19 yn 2024/25 i -4 yn 2025/26.
- 1.20 Mae lefel y gweithgarwch asesu ar gyfer personau cysylltiedig sy'n ofalwyr maeth yn dal yn sylweddol uwch nag ar gyfer gofalwyr maeth prif ffrwd. Mae'r asesiadau hyn yn aml yn cael blaenoriaeth uwch nag asesiadau prif ffrwd ond nid ydynt yn darparu lleoedd sydd ar gael yn gyffredinol i bob plentyn.
- 1.21 Nododd y dadansoddiad yn Adran 1 a'r data yn Nhabl 1b fod Gwent yn cynnwys y nifer uchaf o aelwydydd a lleoedd gofal maeth awdurdodau lleol. Mae Tabl 1c yn nodi mai Gwent sy'n darparu'r gyfran fwyaf o ofal maeth prif ffrwd awdurdodau lleol, gyda 374 (26%) o'r aelwydydd hynny a 651 (25%) o'r lleoedd hynny. Mae crynodiadau uchel o ofal maeth prif ffrwd ar draws Caerdydd (109 o aelwydydd, 216 o leoedd), Abertawe (113 o aelwydydd, 221 o leoedd), Rhondda Cynon Taf (116 o aelwydydd, 216 o leoedd) a Chasnewydd (116 o aelwydydd, 204 o leoedd), gyda phob ardal yn cynwys rhwng 8% o ddarpariaeth aelwydydd prif ffrwd awdurdod lleol. Ceredigion sy'n cadw'r swm isaf o ofal prif ffrwd (20 o aelwydydd, 35 o leoedd, sef rhyw 1% o'r cyfansymiau cenedlaethol).
- 1.22 Rhondda Cynon Taf sy'n darparu'r crynodiad uchaf o ofal gan bersonau cysylltiedig (124 o aelwydydd, 206 o leoedd neu 12% a 14% o'r ffigurau cenedlaethol yn y drefn honno).

Adran 2 – Ymunwyr â'r farchnad ac ymadawyr - cartrefi plant

Tabl 2a: Gwasanaethau cartrefi plant cofrestredig sy'n ymuno â'r farchnad ac yn ymadael â'r farchnad rhwng 1 Hydref 2025 a 31 Mawrth 2026.

Ffynhonnell: AGC

Cyfanswm rhanbarthol ac ardal awdurdod lleol	Nifer y gwasanaethau cofrestredig sy'n ymuno â'r farchnad			Nifer y gwasanaethau cofrestredig sy'n ymadael â'r farchnad		
